**Sesiwn 2000-2001 Rhif 24**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 19 HYDREF 2000

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

### Ethol Dirprwy Lywydd

Gofynnodd y Llywydd am enwebiadau:

Cynigiwyd gan Karen Sinclair bod Rosemary Butler yn cael ei hethol yn Ddirprwy Lywydd

Eiliwyd y cynnig gan Peter Black

Cynigiwyd gan David Melding bod y Dr John Marek yn cael ei ethol yn Ddirprwy Lywydd

Eiliwyd y cynnig gan Jocelyn Davies

Dywedodd y ddau ymgeisydd eu bod yn fodlon i gael eu henwebu

**9.11am**

Gohirwyd y cyfarfod o'r Cynulliad am 10 munud tra bod paratoadau'n mynd rhagddynt i gynnal pledlais gudd y unol â'r rheolau sefydlog.

Cynhaliwyd pleidlais gudd yn Ystafell Bwyllgora 3.

Yr oedd canlyniadau'r bleidlais gudd fel a ganlyn:

Rosemary Butler 27 Pleidlais

John Marek 28 Pleidlais

Cyfanswm y pleidleisiau 55

**Gan hynny, cyhoeddodd y Llywyd mai'r Dr John Marek oedd wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd.**

Cafwyd gair byr o ddiolch gan John Marek.

**Cwestiynau i Edwina Hart, Ysgrifennydd dros Gyllid a Chymunedau**
Gofynnwyd yr **8** cwestiwn cyntaf (Tynnodd Mike German gwestiwn 3 yn ôl; ac nid oedd Christine Humphreys yn bresennol i ofyn cwestiwn 5)

**9.59am**

**Cwestiynau i Sue Essex, Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**
Gofynnwyd y **6** cwestiwn cyntaf

**10.16am**

**Pwyntiau o Drefn** :

**Dr Richard Edwards** ynghylch etholiad y Dirprwy Lywydd a oedd yn groes i gytundeb ynghylch cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn perthynas â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

**Brian Gibbons:** Gofynnodd a fyddai modd paratoi canllawiau ar bryd y câi pwyntiau o drefn eu cymryd.

**Y Llywydd:** Nododd nad oedd unrhyw gyfeiriad yn y rheolau sefydlog at gydbwysedd rhwng y rhywiau - mater i'r Aelodau oedd cyflwyno cynigion i ddiwygio'r rheolau sefydlog. Dywedodd nad oedd yn fwriad ganddo darfu ar y trafodion er mwyn cymryd pwyntiau o drefn; ac na fyddai'n cymryd pwyntiau o drefn yn ystod etholiad.

**Cynog Dafis:** Gofynnodd a oedd y Llywydd wedi cael cais i Ddirprwy Prif Weinidog Cymru wneud datganiad am honiadau diweddar yn ei erbyn.

**Y Llywydd:** Cadarnhaodd nad oedd wedi cael cais i'r perwyl hwnnw.

**10.25am**

**Datganiad:**

Hysbyswyd y Cynulliad gan y **Gweinidog dros Faterion Gwledig** bod camgymeriad yn y memorandwm esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deunydd Risg Penodoedig (Diwygio) (Cymru) 2000 (cymeradwywyd ar 17 Hydref 2000) a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn ddiweddar. Nid oedd yn rhan o'r Gorchymyn ac felly nid oedd yn effeithio ar gyfreithlondeb y Gorchymyn.

**10.25am**

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Cychwyn)**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

Ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**

O blaid 48 ; Ymatal 0 ; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 48

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau am y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

(b) cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**

O blaid 46 ; Ymatal 0 ; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**10.36am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33 yn cymeradwyo copi drafft y Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais**

O blaid 10 ; Ymatal 0 ; Yn erbyn 42 ; Cyfanswm 52

**Ni chymeradwywyd y Gorchymyn.**

**11.24am**

**Dadl ar y Llyfrgell Genedlaethol**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

- croesawu cynlluniau'r Llyfrgell Genedlaethol i agor ei chasgliadau a'i gwasanaethau i fwy o ddefnyddwyr ac amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr, gan roi pwyslais arbennig ar gyrraedd y rhai hynny sy'n dysgu; ac i gydweithio â sefydliadau diwylliannol ac addysgol eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael;

- cefnogi cynnig y Llyfrgell Genedlaethol i ymgymryd â phrosiect ar raddfa eang i ehangu'r casgliadau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i ddefnyddwyr mewn rhannau eraill o Gymru a ledled y byd, yn bennaf ar ffurf ddigidol dros y Rhyngrwyd;

- cymeradwyo polisi'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddarparu cymorth ariannol er mwyn i bob llyfrgell gyhoeddus, lle y bo'n ymarferol, allu mynd ar-lein a chael ei chysylltu â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu erbyn diwedd 2002;

- annog yr holl awdurdodau sy'n rhedeg llyfrgelloedd cyhoeddus, a'r Llyfrgell Genedlaethol, i atgyfnerthu a datblygu'u rôl o ran mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a darparu cyfle i ddysgu.

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol*

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Ar ddiwedd pwynt bwled 3 ychwaneger 'ac y bydd yn monitro'r broses yn drwyadl'.

**2. Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Ychwaneger pwynt bwled 5 'Bydd yn sicrhau bod digon o rwydweithiau band llydan addas ar gael drwy Gymru fel y gellir ymgymryd â'r prosiectau hyn rhwng y Llyfrgell Genedlaethol a Llywodraeth Leol'.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 14; Ymatal 6; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**12.20pm**

**Cyflwynwyd Cynnig Trefniadol gan y Trefnydd o dan Reol Sefydlog 6.16 i ychwanegu 30 munud at**

**amser y Cyfarfod Llawn**

**Cymerwyd pleidlais:**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y Cynnig Trefniadol**

**12.21pm**

**Dadl Fer: Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Y goblygiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn sgil clymblaid y grp Llafur a grp y Democratiaid Rhyddfrydol**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 24 Hydref 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAFDOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 17 HYDREF 2000**

- *Cost Benefit Analysis for Subordinate Legislation* a gynigiwyd ganBrian Hancock, AM - Dim copi Cymraeg ar gael
- Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99 - Ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn cyflwyno ei adroddiad ar 22 Awst 2000.
- LC125 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Addysg (Gwahardd o'r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000
- LC126 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000
- LC127 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - *The Health Act 1999 (Commencement No.3) (Wales) Order 2000* - Dim copi Cymraeg ar gael
- LC128 - Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2000
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Cyfrifon Blynyddol 1999/2000